

## Canwch i'r Arglwydd gân newydd

Yma mae Aled Davies yn agor trafodaeth ar ddyfodol canu cynulleidfaol, ac yn rhannu am fenter newydd Adlais gan ddau o Gristnogion ifanc Cymru


Canu cân newydd: dyna yw anogaeth a gwahoddiad y Salmydd i ni ym mhob cyfnod. Pwysleisia yn ei salmau yr angen am y 'gân newydd' sy'n bendithio enw Duw, a'r angen i ni gyhoeddi ei iachawdwriaeth a sôn am ei ogoniant rhyfeddol. Â ymlaen gan ein hannog i floeddio mewn gorfoledd, i guro dwylo, i orymdeithio ac i ganu'n mawl â'r delyn, â thrwmpedau ac â sain utgorn. Ceir yma ddarlun byrlymus o weld y môr yn rhuo mewn undod, y dyfroedd yn curo dwylo, a'r mynyddoedd yn canu'n llawen. Mae'n ddarlun cyffrous o holl bobl Dduw yn moli mewn gorfoledd.

A ninnau mewn cyfnod o bandemig, aeth y gân yn ddistaw dros dro. Ni chaniateir canu torfol yn gyhoeddus, gan ohirio pob Cymanfa Ganu, rhag i hynny ledu'r haint. Ond mae'n debyg fod y gân wedi colli ei bwrlwm a'i newydd-deb mewn sawl capel ers talwm wrth i gynulleidfaoedd edwino, heb neb i chwarae'r organ na chwaith i arwain y gân. Bu llusgo canu mewn sawl capel, a'r gân yn teimlo'n llesg a blinedig ar adegau.

A oes angen bellach i ni ystyried o'r newydd batrwm mawl a chanu fel rhan o'n haddoliad? Dros gyfnod y pandemig bu modd recordio llawer o emynau a'u rhoi ar y we, a bu gwrando ar emynau traddodiadol a chyfoes yn fendith mewn sawl oedfa hefyd. Mae rhai wedi gweld colli cael canu, tra mae eraill yn diolch nad oes raid sefyll gan syllu ar eiriau emyn bedair gwaith yn ystod oedfa. Sut felly mae sicrhau bod y 'gân newydd' yn parhau i gyhoeddi mawl i enw'r Duw goruchaf ymhlith ein cynulleidfaoedd dros Gymru?

Erbyn hyn, mae 20 mlynedd wedi mynd heibio ers cyhoeddi'r llyfr emynau cydenwadol *Caneuon Ffydd*. Yn y casgliad hwn ceir 873 o emynau


Cymraeg sy'n cynnwys y traddodiadol a'r cyfoes, emynau gwreiddiol Cymraeg a chyfieithiadau. Bu cyhoeddi'r casgliad hwn yn ffrwyth cydweithio rhwng pum enwad i greu un casgliad cynhwysfawr, a chafodd y gyfrol groeso gwresog a'i mabwysiadu gan y rhan fwyaf o gynulleidfaoedd Cymraeg yr enwadau. Cyhoeddwyd fersiynau hen nodiant a sol-ffa, gan i lawer gael eu dysgu yn y tonic sol-ffa gan ddefnyddio modiwlwleor Curwen, ond bellach prinhaus mae'r defnydd o'r cyfrwng yma.



Ond tybed hyd yn oed a welir cyhoeddi llyfr emynau eto yn y dyfodol? I'r rhan fwyaf o eglwysi bychain, mae'r casgliad a geir yn *Caneuon Ffydd* yn fwy na digon, gyda llawer o'r emynau cyfoes a diweddar yn dal yn anghyfarwydd. Efallai fod tuedd i gynulleidfaoedd orddibynnu o bosib ar y cyfarwydd oedd yn gyffredin cynt, yn hytrach na mynd ati i ddysgu emynau a thonau newydd. Ar y llaw arall, mae'r eglwysi mwy blaengar ac arbrofol wedi hen anghofio am y llyfr emynau, a bellach yn taflunio geiriau ar sgrin, sy'n rhoi rhyddid newydd i ddewis a dethol emynau o hwnt ac yma.

Ers cyhoeddi *Caneuon Ffydd* yn 2001, gwelwyd ambell ddatblygiad pellach. Braff yw medru cofnodi bod yna bobl

o hyd wrthi'n creu ac yn cyfansoddi, boed yn cyfieithu'r caneuon Cristnogol diweddaraf neu'n mynd ati i greu gweithiau newydd. Cyhoeddwyd y casgliad mwyaf erioed o emynau ar gyfer plant ac ieuencid yn 2015 yn y gyfrol *Canu Clod!*, dan olygyddiaeth Delyth Wyn, sy'n cynnwys dros 450 o emynau a chaneuon Cristnogol sy'n addas ar gyfer addoliad cyhoeddus. Bu'n braff gweld cantorion, beirdd ac awduron yn cyfrannu emynau gwreiddiol newydd i'r casgliad hwnnw. Ond, ar y cyfan, cafodd y gyfrol fwy o groeso mewn ysgolion na gan ysgolion Sul, lle gwelir llawer llai o ganu erbyn hyn, a chymanfaoedd canu plant yn prysur ddiflannu.



Datblygiad arall fu sefydlu gwefan bwrpasol ar gyfer casglu ynghyd emynau Cymraeg, sef [www.gobaith.cymru](http://www.gobaith.cymru), gan sicrhau bod y fersiynau swyddogol ac awdurdodedig yno. Mae hyn yn hynod bwysig mewn perthynas â chyfieithiadau,

*(parhad ar y dudalen nesaf)*

## Canwch i'r Arglwydd gân newydd (parhad o dudalen 1)

o gofio nad oes hawl i gyfieithu unrhyw emyn a'i ddefnyddio'n gyhoeddus heb ganiatâd yr awdur a'r cwmni cyhoeddi gwreiddiol. Yr elusen Gobaith i Gymru ddechreuodd y gwaith hwn a'i weinyddu gan Gwenda Jenkins, ond erbyn hyn mae'n rhan o fagad gofalon Cyngor yr Ysgolion Sul gyda Delyth Wyn yn gofalu am y wefan. Yn ddiweddar hefyd aed ati ar y wefan honno i greu cyfeirlyfr cynhwysfawr o emynau sydd ar gael yn Gymraeg a Saesneg fel ei gilydd, a da nodi bod y rhestr honno yn cynnwys dros 800 o emynau, sy'n hwyluso addoli dwyieithog.



Bu nifer o unigolion yn flaengar yn cyfieithu emynau cyfoes dros y cyfnod hwn, yn eu plith Arfon Jones, a aeth ati i greu dau gasgliad sylweddol o dan y teitl *Grym Mawl* (ac *Iddo Ef* cyn hynny, oedd yn un o'r casgliadau cyntaf o gyfieithiadau cyfoes). Yn ogystal, bu nifer wrthi'n cyfieithu'n lleol, yn bennaf ar gyfer defnydd eu cynulleidfaoedd, gan gynnwys Casi Jones, Rhiannon Lloyd, Dafydd Job, Arwel Ellis Jones, Aled Myrddin, Linda Lockley ac eraill. Bu Cass Meurig yn cyfansoddi ac yn addasu emynau efo naws werinol iddynt a bu Andy Hughes yn cyfansoddi llu o emynau newydd a gwreiddiol i blant, gan gynnwys un wreiddiol newydd bob wythnos i gyd-fynd â stori Feiblaidd ers dechrau'r pandemig. Un arall a fu'n greu caneuon newydd i blant yw Simon Parry, gan ryddhau traciau cefndir bywiog iawn fel rhan o becyn Cariad Mawr Duw. Gellir cael mwy o wybodaeth am y mentrau hyn o [wefan Cristnogaeth Cymru](#)

Yn ystod mis Ebrill eleni cyhoeddwyd menter newydd gan ddau Gristion ifanc, sef Meilyr Geraint Rees a Cadi Gwyn. Mae Meilyr yn aelod yng nghapel y Bedyddwyr Coedpenmaen ym Mhontypridd, tra mae Cadi yn addoli yn eglwys Caersalem, Caernarfon. Fel rhan o ŵyl Llanw eleni lansiwyd Adlais, sef ymdrech i gyhoeddi a rhyddhau caneuon Cristnogol Cymraeg gwreiddiol. Mae'r ddau eisoes wedi cyhoeddi sawl cân wreiddiol fel unigolion, ond yn gobeithio cydweithio, ac annog eraill, er sicrhau ffrwd newydd o emynau Cymraeg cyfoes a pherthnasol.

Datblygiad newydd a chyffrous felly oedd clywed am sefydlu Adlais. Meddai Meilyr a Cadi,


“Ein gobaith a'n dyhead wrth sefydlu Adlais yw gweld caneuon newydd o addoliad yn codi allan o Gymru a gweld capeli a Christnogion ar draws ein gwlad yn canu caneuon newydd i addoli ein Duw. Un peth da sydd wedi dod allan o'r flwyddyn ddiwethaf yw bod nifer o ganeuon addoli gwreiddiol Cymraeg wedi gallu cael eu rhyddhau. Ein bwriad dros yr wythnosau nesaf yw rhannu nifer o'r rhain ar ein tudalen Facebook ac ar ein sianel ar YouTube. Plis, teimlwh yn rhydd i'w defnyddio yn eich oedfaon ar-lein, ac os ydych yn arwain addoliad mae croeso i chi gysylltu â ni i gael y cordiau a'r cyfeiliant.”

Un gân newydd a rannwyd ganddynt yn Llanw oedd 'Dwyt ti byth yn newid'. Mewn byd sydd yn newid mor gyflym, mae'n gymaint o gysur fod gennym ni Dduw sydd byth yn newid!

Dwi'n haeddu dim  
Ond ti'n dewis fy mendithio;

Yn y storm, Dduw, rwyt ti'n parhau i weithio;  
Does dim byd fedri di ddim ei ddefnyddio  
Er lles y rhai sydd yn dy garu di  
Er lles y rhai sydd yn dy garu di  
Dwyt ti byth yn newid.

Ti'n cadw pob addewid,  
Mae'th air ac mae dy ysbryd  
Yn gweithio ynom ni;  
Diolch am dy gariad,  
Dy ras a dy faddeuant;  
I ti y mae'r gogoniant,  
Ein Duw a'n harglwydd ni.



Frenin Nef,  
Rwyt wedi bod ers y dechreuad;  
Sofran wyt,  
Creawdwr byd, y sêr a'r lleuad;  
Does dim awr, does dim munud, does dim eiliad  
Pan fyddi di yn ein hanghofio ni  
Pan fyddi di yn ein hanghofio ni.

Am dragwyddoldeb byddi di'n teyrnasu –  
Anhygoel yw dy gariad di;  
Am dragwyddoldeb byddwn ni yn canu  
Mor sanctaidd yw ein harglwydd ni.

Dymunwn yn dda i Meilyr a Cadi ar eu menter, ac edrychwn ymlaen am gael canu cân newydd i Dduw yn ein heglwysi ledled Cymru.

Adlais  
[YouTube](#)  
[Facebook](#)

### Cydymdeimlad

Trist oedd clywed am farwolaeth y Parchedig John Roberts, Abergwaun, yn Ysbyty Llwynhelyg fore Gwener, 16 Ebrill 2021, yn 95 oed. Bu'n brifathro yn Ysgol Brynconin, Llandysilio, cyn cyflwyno'i hun i'r weinidogaeth yn 1977. Gwasanaethodd yn Ruhamah, Penybont a Harmoni, Pencaer. Diolchwn am ei gyfraniad gwerthfawr i waith y Deyrnas ac estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â'r meibion, Martin a Huw, a'r teulu oll.

# Cytûn yn ystyried yr hyn a fu ac yn annog trugaredd ac ymgysylltu yn eu Bwletin Polisi Pasg 2021

Daeth Bwletin Polisi Cytûn i law eto ac mae llawer ynddo y gellir tynnu sylw ein darllenwyr ato. Felly, dyma gynnig crynodeb byr a'ch annog i ddarllen y cyfan ar wefan Cytûn, Eglwys ynghyd yng Nghymru: [www.cytun.co.uk](http://www.cytun.co.uk)

## Edrych yn ôl ar y pumed tymor

Yn y rhifyn y tro hwn fe gawn dipyn o hanes Senedd Cymru wrth edrych yn ôl ar ei phumed tymor ([Diwedd Tymor Cythryblus Senedd Cymru](#)) a ddaeth i ben ym mis Mawrth, gyda golwg ar y deddfau a basiwyd ac a fydd yn effeithio ar Gymru am genedlaethau. Trwy'r cyfan, fe fu Cytûn yn ceisio sicrhau fod buddiannau eglwys Cymru yn cael eu hystyried, a hefyd fod llais Cristnogol i'w glywed ar y materion moesol a chymdeithasol sy'n codi wrth ddeddfu o'r newydd ac wrth weithredu'r deddfau sydd eisoes yn bod. Yn ystod blwyddyn Covid fe ddaeth Fforwm Cymunedau Ffydd a Chyngor Partneriaeth y Trydydd Sector hyd yn oed yn bwysicach wrth ymgysylltu â Llywodraeth Cymru am yr amryfal newidiadau yn y rheoliadau, ac mae Cytûn yn cynrychioli eu haelodau ar y ddau fforwm allweddol yma.

## Etholiadau'r Senedd

Edrychir ymlaen hefyd at yr etholiadau a gynhelir yng Nghymru ar 6 Mai gyda [gweddi arbennig ar gyfer cyfnod yr etholiad](#). Ceir gwybodaeth ddiuedd am nifer o [feysydd polisi](#) allweddol, yn cynnwys cwricwlwm newydd ysgolion Cymru; gofal cymdeithasol; tloidi yng Nghymru; mewnfudo, ceisio lloches a phobl ddu ac ethnig lleiafrifol; adferiad cyfiawn a gwyrdd yn dilyn y pandemig; a materion yr heddlu a throsedd.

## Cymru Sero-net

Ymhlith y llu o is-ddeddfau a basiwyd yn wythnosau olaf y Senedd yr oedd cyfres o reoliadau i leihau allyriadau carbon Cymru i ddim erbyn 2050, gyda rhwymedigaeth gyfreithiol i sicrhau gostyngiad o 63% o leiaf (o'i gymharu â 1990) erbyn 2030, ac o leiaf 89% erbyn 2040 (Deddfu ar Gyfer Cymru Sero-net erbyn 2050).

Fe fydd ymrwymadau pob gwlad yn y byd yn cael eu hystyried yn uwch-

gynhadledd ryngwladol COP26 a gynhelir yn Glasgow ym mis Tachwedd 2021. Mae Cytûn yn cynrychioli ei aelod-eglwys a mudiadau o fewn dwy glymblaid sy'n gweithio i esbonio pwysigrwydd y gynhadledd hon ac annog unigolion, eglwys a'r gymdeithas gyfan i ymgymryd â'r her – ond gan gydnabod mai yn nwylo llywodraethau'r byd y mae'r gallu i gymryd y camau mwyaf.



Mae [Climate.Cymru](#) yn glymblaid o fudiadau gwirfoddol yng Nghymru sy'n anelu at godi llais o leiaf 50,000 o bobl yng Nghymru yn yr uwch-gynhadledd. Gallwch ychwanegu eich llais chi drwy ddilyn y ddolen uchod i'r wefan.

## Sul yr Hinsawdd

Rhoddir manylion a dolenni hefyd ar gyfer [Sul yr Hinsawdd](#), gyda chlymblaid o eglwys i a mudiadau Cristnogol ledled Prydain ac Iwerddon yn annog cynulleidfaoedd lleol o bob traddodiad Cristnogol i gynnal oedfa seiliedig ar thema'r hinsawdd. Hefyd, cânt eu hannog i ymrwymo i wneud eu rhan fel cynulleidfa drwy gynllun [EcoChurch](#) neu [LiveSimply](#); a chodi llais trwy arwyddo [datganiad Clymblaid yr Hinsawdd at yfory mwy iach, teg a gwyrdd](#) – gan nodi eu bod yn gwneud hynny ar sail eu ffydd. Mae yna adnoddau helaeth ar gyfer cynnal oedfa – neu, yn wir, fwy nag un oedfa – yn Gymraeg ac yn Saesneg ar [wefan Sul yr Hinsawdd](#).



Newid hinsawdd fydd thema Gethin Rhys wrth iddo ef draddodi darlith goffa Gethin Abraham-Williams eleni ar 20 Mai. Teitl y ddarlith fydd: 'Diwedd y Byd? Apocalyptic Cristnogol ac ymatebion i newid hinsawdd'.

## Cynnig gobaith a thosturi

Ceir manylion lansio prosiect HOPE i helpu pobl hŷn i aros mewn cyswllt.



Hefyd, cyfeirir at ail-lansio 'Byw Nawr' fel 'Compassionate Cymru' gan ganolbwytio'n bennaf ar yr aelodau hynny o'n cymunedau sydd ar ddiwedd eu hoes, neu'n gofalu am y rheini sy'n cyrraedd diwedd eu hoes ar unrhyw oedran, gan gynnwys plant a'u teuluoedd.

Mae Gethin Rhys yn cynrychioli Cytûn a'i aelod-eglwys ar Grŵp Llywio Compassionate Cymru. Ef fydd yn cydlynu ymateb yr eglwys i [Fframwaith Cenedlaethol Drafft Llywodraeth Cymru ar gyfer Gofal Profedigaeth yng Nghymru](#), a gyhoeddwyd tua diwedd tymor y Senedd. Maent yn croesawu cyfraniadau i'w hymateb. Nid oes raid i'r rhain fod yn draethodau hir am fanylion polisi, ond gallant fod yn gyfraniadau ar sail profiad eich cynulleidfa, eich enwad neu'ch mudiad. Er mwyn cael eu hymateb i Lywodraeth newydd Cymru erbyn y dyddiad cau, sef 17 Mai, byddant yn falch o glywed gennyh erbyn 10 Mai trwy [gethin@cytun.cymru](mailto:gethin@cytun.cymru).

Gweithred arall o drugaredd y gallwn fynd ynglŷn â hi, ac y ceir y manylion i gyd er mwyn ymateb, yw ysgrifennu at Aelodau Senedd San Steffan i fynegi ein safbwynt ar y newidiadau arfaethedig i Gronfa Datblygu Rhyngwladol Prydain lle mae'r llywodraeth yn bwriadu lleihau eu cymorth tramor o 0.7% o Incwm Gwladol Gros (GDP) i 0.5% (Eglwys yn galw am ddiogelu Datblygu Rhyngwladol Prydain).

'Diolchwn i Cytûn am eu *Papur Briffio i Eglwys Cymru* sy'n hynod o ddefnyddiol wrth inni ystyried goblygiadau Deddfwriaeth Coronafeirws arnom fel eglwys. Ceir mynediad i'r Papur Briffio, sy'n cael ei ddiweddar yn ôl y galw, ar wefan [www.Cytun.co.uk](http://www.Cytun.co.uk) o dan y pennawd Covid-19 a Rheoliadau Cyfredol.'


## ‘Y Pabydd Protestannaidd’ – cofio Hans Küng (1928–2021)

Pan glywais ar 6 Ebrill eleni am farwolaeth Hans Küng, y cawr o ddiwinydd pabyddol o'r Swistir, aeth fy meddwl yn ôl bron hanner can mlynedd. Gweinidog ifanc oeddwn i ar y pryd ym Mhenbedw, ac roeddwn newydd orffen darllen ei gampwaith, *On Being a Christian*. Fe'm cyfareddwyd yn llwyr gan y gyfrol, a gyfieithwyd i'r Saesneg gan Edward Quinn yn 1976, a chefais fy symbylu i anfon ysgrif ar Küng a'i waith i'r cylchgrawn *Porfeydd*. O bosibl mai dyna pryd y taniwyd fy niddordeb mewn diwinyddiaeth fel maes byw, cyffrous, oherwydd dilynodd nifer o erthyglau eraill o'm heiddo, ynghyd ag ambell ddarlith, a llawer ohonynt yn ymwneud yn uniongyrchol â Küng.



Hans Küng

Nid *On Being a Christian* oedd cyfrol gyntaf Küng o bell ffordd, na hyd yn oed y gyntaf i'w ddwyn i sylw darllenwyr y tu allan i'r Eglwys Babyddol. Eisoedd wedi cyhoeddi cyfrolau o bwys â theitlau pryfoclyd, megis *Infallible? An Enquiry* (1971\*), a *Why Priests?* yn yr un flwyddyn; ac roedd yna ddigon eto i ddod, megis *Does God Exist?* (1980) a *Credo* (1993).



Dehongliad cyfoes o Gredo'r Apostolion yw *Credo*, a thros y blynyddoedd bu'n faes trafod buddiol iawn mewn seiadau yn fy eglwys. Yn y gweithiau uchod ac eraill, fe heriai Küng bob sôn am 'aberth yr Offeren', y ddysgeidiaeth am wryfod parhaol Mair, a rhai agweddau ar y dehongliad traddodiadol o berson Crist. Does ryfedd i'r diweddar Athro Harri Williams gyfeirio ato fel 'Y Pabydd Protestannaidd'!

Yn 1960 cafodd Küng ei benodi'n Athro Diwinyddiaeth ym Mhrifysgol Tübingen yn yr Almaen, ac yn 1963 yn bennaeth cyntaf y Sefydliad dros Ymchwil Eciwmenaidd. Chwaraeodd ran flaenllaw yn y paratodau ar gyfer Ail Gyngor y Fatican (1962–5), a phenododd y Pab Ioan XXIII ef yn *peritus* (ymgynghorydd) i'r Cyngor. Golygai hyn ei fod yng nghanol y gwrthdaro rhwng yr arweinwyr traddodiadol a'r diwygwyr o fewn yr eglwys, a thyfodd yn fwyfwy siomedig yn wyneb methiant yr eglwys i'w diwygio'i hun. O hynny ymlaen bu'n gynyddol feirniadol o'r eglwys a'i harweinwyr, a'r rhwystredigaeth honno a gafodd fynegiant yn ei lyfrau.

Yn ystod y cyfnod hwn roedd y Babaeth yn wynebu her o gyfeiriad Diwinyddion Rhyddhad America Ladin, gyda'u syniadau cymdeithasol chwyldroadol. Ac roedd diwinydd arall, Edward Schillebeeckx o'r Iseldiroedd, wedi dechrau cynhyrfu'r dyfroedd gyda'i weithiau sylweddol yntau. Cafodd Küng ei lusgo gerbron y Cynulliad dros Athrawiaeth y Ffydd (etifedd y Chwyls) sawl gwaith, ac yn *On Being a Christian* mae'n cwyno bod hyn wedi peri iddo golli llawer o amser, pryd y gallasai fod yn ysgrifennu. Meddai: 'The tiresome disputes forced on me afresh by Rome cost me at least two months of working time and working energies ... The section planned [on prayer] therefore had to be dropped: a victim of the Roman Inquisition.'



Edward Schillebeeckx

Pen draw'r gwrthdaro hwn oedd i'r Cynulliad atal ei drwydded fel Diwinydd Pabyddol, y *missio canonica*, ym Mhrifysgol Tübingen yn 1979, er iddo barhau yn ei swydd fel Athro 'seciular' yno hyd ei ymdeoliad yn 1996.

Glyn Tudwal Jones  
Caerdydd  
(l'w barhau)

## Gair y Dydd

Wrth gyflwyno'r rhifyn cyfredol o *Gair y Dydd* fis Ebrill 2020, gan wynebu cyfnod maith o gapeli dan glo ac addoli i rai yn dechrau ar Zoom, tynnwyd sylw at yr angen cynyddol fyddai yn ein plith i dderbyn deunydd i'n harwain yn ein bywydau personol o ddydd i ddydd.

Fe fu cynnydd yn nifer y tanysgrifwyr yn ystod y flwyddyn 2020–21, ac mae rhai cannoedd wedi cael bendith o gael eu harwain gan rai fel Eryl Wyn

Davies, Olaf Davies, R. Alun Evans, Dyfrig Lloyd, Eleri Edwards, ac yn y rhifyn cyfredol (Ebrill, Mai, Mehefin 2021) gan Dyfed Wyn Roberts, Ronald Williams ac Alun Charles. Y cyfranwyr i'r rhifyn nesaf fydd John Pritchard, Densil Morgan a Nerys Tudor.

Go brin y cewch arweiniad mor gyfoethog am bris o **£10.00 yn unig am flwyddyn gyfan**. Ni all dim ond bendith ddod drwy *Gair y Dydd* i unigolion ac, yn y pen draw, i'n heglwys, â chynifer ohonynt, fel rydym yn clywed yn gyson, mewn sefyllfa mor fregus.

I archebu'n bersonol neu i'w ddsbarthu yn eich eglwys, cysylltwch â:  
Glyn Williams, 12 Coed y Glyn,  
Llandudno, Conwy LL 1JL  
01492 581439 / 07866126072.

Gyda llawer o ddiolch i'n tanysgrifwyr ffyddlon a chroeso i'r rhai newydd.

Judith Morris  
(Cadeirydd y Panel Golygyddol)

Pryderi Llwyd Jones  
(Ysgrifennydd)

## Yr atgyfodiad – gobaith y blaenffrwyth a'r cynhaeaf

'Mae angen gobaith yn y dyddiau hyn!' Sawl gwaith ydyn ni wedi clywed y geiriau hyn yn ystod y flwyddyn ddiwethaf? Cawsom flwyddyn o ddiodeffaint, poen a marwolaeth, gydag unigrwydd ynysig i gymaint hefyd. Ac mae mor braf gallu dweud bod gennym obaith byw trwy atgyfodiad Iesu Grist oddi wrth y meirw. Un darlun pwysig o'r atgyfodiad yn y Beibl yw'r blaenffrwyth.

### Crist y blaenffrwyth

Roedd dydd y blaenffrwyth yn Israel ar drydydd dydd Gŵyl y Bara Croyw, y dydd ar ôl y Sabbath, sef dydd Sul. Felly, nid damwain oedd y ffaith fod yr Arglwydd Iesu wedi ei gyfodi o'r bedd ar y diwrnod yma. Yn Israel fe fyddai peth o'r cynhaeaf cyntaf, y barlys, yn cael ei gyflwyno gerbron yr Arglwydd. Yna byddai Gŵyl y Cynhaeaf llawn yn digwydd ymhen pum deg diwrnod (Dydd y Pentecost).

Roedd y blaenffrwyth yn arwydd o ddaioni a ffyddlondeb Duw gyda'r cynhaeaf, ac yn arwydd bod rhagor i ddod ymhen amser. Mae'r Testament Newydd yn dweud yr un peth am atgyfodiad yr Arglwydd Iesu oddi wrth y meirw: 'Ond y gwir yw bod Crist wedi ei gyfodi oddi wrth y meirw, yn flaenffrwyth y rhai sydd wedi huno' (1 Corinthiaid 15.20).

Mae'r adnod yma'n dweud taw Iesu Grist yn atgyfodi o'r bedd oedd y cyntaf o lawer

i atgyfodi o'u bedd gyda chorff newydd nefol, yn barod ar gyfer gogoniant y nefoedd newydd a'r ddaear newydd. Y rhai fydd yn cael eu hatgyfodi yn y modd yma fydd pobl Iesu Grist, 'eiddo Crist'.

Dyma neges allweddol i fyfwrwr. I'r sawl sydd yn ymddiried yn yr Arglwydd Iesu fel Arglwydd a Gwaredwr, nid gwaeledd, gwendid, diodeffaint a marwolaeth y corff yw diwedd y stori. Mae Ef wedi addo dod yn ôl i'n cymryd ni ato'i hunan. Os yw Crist yn eiddo i ni, yna mae popeth yn eiddo i ni, gan gynnwys 'bywyd, angau, y presennol, y dyfodol', ac ry'n ni'n gwybod na all angau nac einioes ... ein gwahanu oddi wrth gariad Duw yng Nghrist Iesu ein Harglwydd.

### Blaenffrwyth yr Ysbryd

Mae'r Testament Newydd hefyd yn sôn am yr Ysbryd Glân fel blaenffrwyth. Yr Ysbryd sydd yn ein geni o'r newydd, yn pigo'r gydwbybod a'r galon am ein pechod, ac yn ein tywys at Iesu Grist am faddeuant llawn a heddwch gyda Duw. Yr Ysbryd hefyd yw ernes neu flaendal ein hetifeddiaeth yn y nef.

Mae'n dod â sicrwydd ein bod yn salf fel eiddo Iesu Grist; mae'n cynhyrchu ffrwythau, sy'n brawf ein bod yn ddilys; mae'n tywallt cariad Duw yn ein calonnau – a'r cyfan yn flaenffrwyth o'r hyn sydd i ddod yn llawn yn y nef a'r ddaear newydd.



Os ydym wedi cael atgyfodiad ysbrydol o fod yn farw yn ein camweddau a'n pechodau, byddwn yn siŵr o gael atgyfodiad corfforol i fod gyda'r Arglwydd yn barhaus.

Diolch am neges y gobaith byw trwy atgyfodiad Iesu Grist oddi wrth y meirw. Diolch taw'r cyntaf o lawer oedd ei atgyfodiad Ef.

Diolch fod miliynau wedi eu codi o farwolaeth ysbrydol i fywyd trwy waith yr Ysbryd Glân. Diolch ein bod yn clywed bod disgwyl i nifer y rhai sy'n proffesu Crist gynyddu i 1.5 biliwn erbyn 2050, yn ôl patrwm y twf presennol ar draws y byd (gweler y cylchgrawn [TableTalk](#)).

Diolch y byddan nhw hefyd yn codi'n gorfforol o'u bedd – lle bynnag mae hwnnw – pan ddaw Iesu Grist yn ôl mewn gogoniant.

*John Treharne  
Llwynhendy*

## Dalier Sylw

### Fforwm Ffydd (Undeb Athrofa'r Bala)

Oherwydd cyfyngiadau Cofid, ni chynhelir Cynhadledd Flynyddol Fforwm Ffydd yn Eglwys Unedig Seilo, Llandudno, ym mis Mai eleni. Fodd bynnag, edrychwn ymlaen mewn ffydd at gael cyfarfod fel arfer yn Seilo ddydd Mawrth, 17 Mai 2022.

Nodwch y dyddiad yn eich dyddiaduron!

*Megan Williams (Ysgrifennydd)*

## Cwrs y Beibl

Mae Adran Hyfforddiant EBC yn annog eglwysi a henaduriaethau i ystyried rhedeg 'Cwrs y Beibl' yn lleol. Cyflwyniad cryno ydyw i'r Beibl fel cyfanwaith, o Ardd Eden yn Genesis hyd at y 'nef newydd a'r ddaear newydd' yn Llyfr y Datguddiad. Darparwyd y deunydd gan Gymdeithas y Beibl, ac mae'n cynnwys wyth sesiwn efo fideo byr a chwestiynau trafod. Mae'n cynnig ei hun at ddefnydd ar-lein efo Zoom. Mae grwpiau wedi eu cynnal mewn sawl ardal yn ddiweddar – Henaduriaeth Mid-Wales, eglwysi Ynys Môn, Bangor, a Dyffryn Clwyd, a'r ymateb wedi bod yn gadarnhaol.



Os hoffech weld copïau o'r llyfryn gwaith neu'r DVDs, cysylltwch â'r Cydlynnydd Hyfforddiant, [delyth.oswy@ebcpcw.cymru](mailto:delyth.oswy@ebcpcw.cymru). Os nad oes grŵp yn eich ardal chi, gallwch ddilyn y cwrs efo'r adran hyfforddiant. Cofrestrwch nawr ac fe dderbyniwch fanylion llawn. Manylion pellach ar wefan Cymdeithas y Beibl: <https://www.biblesociety.org.uk/cymru/pecyn-cwrs-y-beibl/>.

## ADNABOD

## CYMERIADAU'R TESTAMENT NEWYDD

## ACTAU'R APOSTOLION

Cyfes o astudiaethau Beiblaidd ar gyfer y cartref neu grŵp gan y Parch. Denzil I. John

Mae testun a chyflwyniad fideo o'r deunydd hwn ar gael ar wefan y Cyngor Ysgolion Sul: [www.ysgolsul.com/?page\\_id=804](http://www.ysgolsul.com/?page_id=804)

### Cymeriadau'r Testament Newydd Gwers 43 – Barnabas

#### Gweddi

Yn ein myfyrdod heddiw cofiwn am y sawl sydd ddim yn cael sylw amlwg yn stori ein cenhadaeth, ond a wnaeth gyfraniad pwysig. Cofiw'n heddiw am gyfraniad pawb yn yr eglwys, a diolch amdanynt. Amen.

#### Darllen

Actau 11: 24 – y dyn da; Actau 14: 1-19 – y cynorthwydd hanfodol

#### Cyflwyniad

Dywedir wrthym yn Actau 4 fod Barnabas yn un o'r Cristnogion cynharaf, yn dwyn y cyfenw Joses, yn perthyn i lwyth Lefi a'i fod yn un o athrawon yr eglwys yn Antioch. Dywedir mai ystyr ei enw yw 'mab cydymdeimlad' a bu'n berson cyson a chefnogol ei gyfraniad i fywyd yr eglwys. Yn Actau 14 cawn flas ar y modd yr oedd yn rhan o'r bartneriaeth gyda Paul ar y daith genhadol gyntaf. Rhaid bod hon yn fenter eithriadol gan nad oeddent yn medru dyfalu beth fyddai'r ymateb. Roedd Ioan Marc, nai i Barnabas, gyda hwy ar y daith am gyfnod, ond bu agwedd Marc yn rheswm i'r bartneriaeth ddod i ben. Dywedir nad oedd Paul am gynnwys Marc ar yr ail daith, tra oedd syniadau Barnabas am gynnwys ei berthynas ifanc. Rhaid bod Luc, wedi clywed yr hanes, yn dewis cyflwyno hanes Paul, ac ni fu mwy o sôn am Barnabas. Aeth Paul, yng nghwmni Silas, ar daith dros y tir i'r gogledd-orllewin, sef ardaloedd Syria a Cilicia, ond aeth Barnabas yn ôl gyda Marc i Gyprus er mwyn cadarnhau'r eglwys yno.

#### Myfyrdod

Rhan o fwriad Luc wrth ysgrifennu Llyfr yr Actau oedd dangos bod cyfraniad Paul

mor arwyddocaol â chyfraniad Pedr, ond gwelodd yn dda i ddangos bod gan Barnabas ei gyfraniad hefyd. Roedd yn ddyn llawn ffydd a daioni, yn un a oedd yn deilwng o ymddiriedaeth yr eglwys yn Jerwsalen ac Antioch, heb anghofio ei fod yn athro da ac yn arweinydd teilwng. Roedd yn wrthbwynt i fwrlwm Paul, ac yn gwmni cadarnhaol ac effeithiol. Yn aml, bydd angen dau sy'n wahanol i'w gilydd i greu a chynnal llwyddiant y bartneriaeth. Gwelsom hyn yn gyson mewn meysydd gwleidyddol, chwaraeon a chomedï, ac roedd y daith genhadol gyntaf yn enghraifft o bartneriaeth lwyddiannus o'r fath. Bydd sawl prifathro ysgol yn ddiolchgar am gyfraniad ei ddirprwy, a bu sawl gweinidog yn ddiolchgar am gymorth effeithiol ei briod, a swyddogion yn yr eglwys.

Nid gŵr tawel yn cytuno â phob gosodiad oedd Barnabas chwaith, ond un a ystyriodd y sefyllfa ac a benderfynodd ar ei lwybr ei hun. Drwy anghytuno â Paul, dangosodd fod ganddo feddwl annibynnol, ond ei fod yn dal yn awyddus i wasanaethu drwy ymweld â'r eglwys yr oedd ef a Paul wedi eu sefydlu ar y daith genhadol gyntaf. Aeth ag Ioan Ioan Marc yn gwmni iddo, a gwelodd yr eglwys beth oedd cyfraniad Marc yn diweddarach yn ei hanes, gan iddo gynhyrchu'r hyn a adnabyddir fel Efengyl Marc.

Yn gymaint â bod Paul yn cael ei gydnabod a'i werthfawrogi, camgymeriad fyddai sôn amdano fel prif symbylydd cenhadaeth. Iesu oedd yr un a ddywedodd 'Ewch', a theithiodd y mwyafrif helaeth o'r apostolion i wlad a thref i sôn am Iesu Grist. Nid yn unig yr oedd y cymeriadau amlwg wedi mynd, ond roedd gan eraill, fel Barnabas, yr un awydd i rannu eu stori, ac i gymell

pobl i ddilyn Iesu hefyd. Wrth i Luc sôn am gyfraniad Barnabas, tybed a oedd yn dweud wrth yr Eglwys Fore ddiwedd y ganrif gyntaf fod rhan i bawb yng nghenhadaeth yr eglwys, ac mai cenhadaeth y corff cyfan sy'n cyfrif, nid dawn dweud a dyfalbarhad unigolyn fel Paul? Onid felly y bydd eglwys yn ein hardaloedd a'n cyfnod ni yngweithio? Nid band un dyn neu un ddynes yw eglwys, ond cymdeithas ar waith yn rhannu ei phrofiad o Dduw yn symud ymhlith ei haelodau. Mae lle i bawb ac mae angen cyfraniad pawb i'r dystiolaeth fod yn effeithiol. Bydd y pregethwyr fel Paul a'r athrawon fel Barnabas yn gyfwerth eu cyfraniad. Roedd Paul yn ddigon parod i gydnabod cyfraniad eraill ar ddiwedd ei lythyron, a diolchwn heddiw am bobl fel Barnabas ym mywyd yr eglwys.

#### Gweddi

Diolch i ti, nefol Dad, am yr amlwg a'r anamlwg yng nghymdeithas ac yng nghenhadaeth yr eglwys. Maddau i ni am ddyrchafu enwau rhai ar draul y gweddill, neu am glodfori'r cyhoeddus heb gydnabod y cefnogwyr. Ti yw craidd ein cymdeithas a'n cenhadaeth, ac i ti y bo'r clod, y mawl, y parch a'n bri yng nghenhadaeth ein cyfnod. Amen.

#### Trafod ac ymateb

- Roedd Barnabas yno pan oedd Saul mewn angen am gyfaill (Actau 9:26-8). Pwy sydd wedi bod yno ar eich cyfer chi? Diolchwch amdanynt a meddwl pwy allwch chi fod yno ar eu cyfer yn eu hangen.
- Beth fyddai wedi dod o Paul pe na bai wedi cael cyfeillgarwch ac anogaeth Barnabas? A oes angen rhai fel hyn yn yr eglwys – yn rhoi'r blaen i eraill a'u holl fryd ar eu calonogi?

S4C

Nos Sul, 2 Mai, am 7.30yh – *Dechrau Canu, Dechrau Canmol*

Yr wythnos yma bydd y rhaglen yn nodi un o wyliau pwysigaf y calendr Islamaidd, Ramadan.

BBC radio cymru

Sul, 2 Mai, *Caniadaeth y Cysegr*

am 7.30yb a 4.30yp

Elen Ifan fydd yn cyflwyno detholiad o emynau o gymanfaoedd a chyngherddau a gynhaliwyd yng Nghaerdydd yn ystod y blynyddoedd diwethaf

**Gwasanaeth Radio Cymru** am 12:00yp dan ofal Rhosier Morgan, Y Frenni

# Cyngor y Genhadaeth Fyd-eang yn ethol Ysgrifennydd Cyffredinol Newydd

Mewn cyfarfod rhithiol arbennig o'r aelodau ar ddiwedd Mawrth, fe gymeradwywyd penodiad y Parch Ddr Jooseop Keum fel Ysgrifennydd Cyffredinol nesaf Cyngor y Genhadaeth Fyd-eang (Council for World Mission, CWM). Mae CWM yn cynnwys 32 o eglwysi ledled y byd, â thair o'r rheini'n weithredol yng Nghymru, sef Undeb yr Annibynwyr Cymraeg, Eglwys Bresbyteraidd Cymru a'r Eglwys Ddiwygiedig Unedig. Bydd Dr Keum yn olynu'r Parch Ddr Collin Cowan, sydd wedi bod wrth y llyw am ddau dymor bellach, ac yn dechrau ar ei waith ar 1 Gorffennaf.

Daw'r Dr Keum o Weriniaeth Corea, lle mae'n weinidog ordeiniedig yn Eglwys Bresbyteraidd Corea. Ar hyn o bryd mae'n gwasanaethu ei eglwys fel Athro Cristnogaeth Fyd-eang yn y Brifysgol a'r Gyfadran Ddiwinyddol Bresbyteraidd yn Soel ac fel Cyfarwyddwr Sefydliad Corea ar gyfer Eciwmeniaeth i'r Dyfodol.

Mewn ymateb i'r newyddion am ei benodi, fe ddywedodd Dr Keum, 'Mae'n ffrainc cael fy ngalw gan yr eglwysi sy'n aelodau o CWM i'w harwain fel eu Hysgrifennydd Cyffredinol. Rwy'n gwir werthfawrogi eu cefnogaeth a'u hymddiriedaeth yn fy mhrofiad a'm harweiniad mewn cenhadaeth fyd-eang. Ers fy ieuencid, mae safbwyntiau a dulliau

gweithredu CWM wedi bod yn ffurfiannol i'm datblygiad wrth imi aeddfedu.

'Yn ystod y tri degawd diwethaf, mae'r mudiad cenhadol hwn wedi bod yn ysbrydoliaeth imi ar fy nhaith, ac mae f'ymateb i'r alwad hon yn seiliedig ar fy ffydd yn y Duw cenhadol. Yn wir, mae'r byd yn wynebu heriau amrywiol, a gellir datrys llawer ohonynt â gweledigaeth ar y cyd, ymroddiad dyfnach, cydweithio cryfach, a phartneriaeth gyfartal ymysg yr eglwysi a'r partneriaid eciwmeniaidd. Fe'n gelwir i fyw yng ngoleuni'r atgyfodiad, sy'n cynnig posibiladau llawn gobaith ar gyfer trawsnewid byd sydd wedi ei glwyfo gan y pandemig. Felly, fe'n gelwir ynghyd o gwmpas ein gweledigaeth o gymunedau sy'n byw bywyd yn ei gyflawnder.'

'Mae'r Dr Keum yn ymgymryd â'r cyfrifoldeb hwn ar adeg strategol. Cipolwg yn unig y mae pandemig Covid-19 yn ei roi inni ar y plâu sy'n effeithio cymaint ar y gymuned fyd-eang gan rannu pobloedd y ddaear a difetha'r amgylchedd,' meddai'r Parch Ddr Cowan, a fydd yn gadael y swydd ym mis Gorffennaf. 'Mae ein brawd Jooseop yn dod at y gwaith,' meddai ymhellach, 'â chalon fugeiliol dyner, angerdd dros gyfiawnder, ymrwymiad i'r mudiad eciwmeniaidd a chariad tuag at yr Eglwys. Dyma rai o'r



Y Parch  
Ddr Jooseop  
Keum,  
Ysgrifennydd  
Cyffredinol  
Etholedig CWM

doniau fydd yn cael eu rhoi ar waith er mwyn hyrwyddo Cenhadaeth CWM ar gyfer y cyfnod hwn. Llawn ydd mawr i mi yw gallu trosglwyddo baton yr arweinyddiaeth iddo ef gyda'm gweddau a'm dymuniadau gorau.'

Derbyniodd Dr Keum ei radd Doethor mewn Cenhadaeth ac Eciwmeniaeth yn ogystal â'i MTh mewn Cristnogaeth Fyd-eang gan y Coleg Newydd, Prifysgol Caeredin, a'i raddau eraill gan y Brifysgol a'r Gyfadran Ddiwinyddol Bresbyteraidd yn Seoul, lle mae'n gweithio ar hyn o bryd.

Am wybodaeth bellach ynghylch teulu eglwysig byd-eang CWM a mynediad i'w cylchgrawn daufisol [Insight](https://www.cwmission.org/), lle mae newyddion o eglwysi yng Nghymru a'r byd yn cael eu rhannu, ewch i'w gwefan: <https://www.cwmission.org/>

**EGLWYS BRESBYTERAIDD CYMRU  
HENADURIAETH MYRDDIN  
GOFALAETH CYLCH LLANDEILO A'R ARFORDIR  
SWYDD CYNORTHWYDD GWEINIDOGAETHOL**



Gwahodddwn rai â diddordeb mewn hybu gwaith Cristnogol ac Eglwysig i ymddiddori yn y swydd o Gynorthwydd Gweinidogaethol i wasanaethu yng Ngofalaeth Cylch Llandeilo a'r Arfordir.

Oriau: 35 awr yr wythnos  
Cytundeb: 3 blynedd gyda'r 6 mis cyntaf yn gyfnod prawf  
Cyflog: Graddfa 25-30 (£25,003.87-£27,634.74) a chyfle i ymuno â Phensiwn EBC

Mae'r swydd hon yn amodol ar ddatgeliad DBS manwl a dau eirda boddhaol.

Mae gofyniad galwedigaethol Cristnogol ac iaith Gymraeg yn berthnasol ar gyfer y swydd hon.

Dyddiad cau: Dydd Gwener, 7fed o Fai, 2021  
Cyfweiliadau: Rhagwelir y bydd y cyfweiliadau yn cael eu cynnal ddydd Gwener, 14eg Mai, 2021

Am fwy o wybodaeth, ac am ffurflen gais, cysylltwch ag:  
e-bost - [hedd.morgan@ebcpcw.cymru](mailto:hedd.morgan@ebcpcw.cymru),  
ffôn - 02920 627 465  
gan nodi - 'Swydd Cynorthwydd Myrddin'

Eglwys Bresbyteraidd Cymru

## Dathliad Cenhadol Merched y Gogledd

(Sasiwn Genhadol y Chwiorydd)

**Dydd Iau, 6 Mai 2021**

yn cael ei gynnal yn rhithiol eleni am 2 o'r gloch  
ar Zoom, YouTube ac ar Facebook.

Mae'r gwasanaeth wedi ei baratoi gan  
Chwiorydd Capel y Traeth, Cricieth, gydag anerchiad  
gan y Prifardd Mererid Hopwood

Byddwn hefyd yn lansio'r thema 'Y Bugail Da 2021'

Cysylltwch â Sarah Morris am wybodaeth bellach:  
[sarah.morris@ebcpcw.cymru](mailto:sarah.morris@ebcpcw.cymru)

I weld gwahoddiad chwiorydd Cricieth i'r dathliad, ewch i  
<https://www.youtube.com/watch?v=8wGgkreJleM>

# Dyma gyfarfod hyfryd iawn

## Gwreiddyn a bywyd ffydd

### Emyn 1: 'Cydganwn foliant rhwydd'

#### Gweddi

Dduw cariad, dysga ni sut i adnabod, i gydnabod ac i gredu dy fod yn dal i'n caru ni heddiw drwy dy fab Iesu Grist. Amen.

#### Cyflwyniad

Beth petawn yn dweud wrthyf mai'r un gêm yn ei hanfod yw pêl-droed a rygbi? Dwi ddim yn amau y byddech yn meddwl fy mod wedi colli arni'n llwyr!

Ond arhoswch am foment. Pa gêm ydw i'n ei disgrifio yma?

'Gêm sy'n cael ei chwarae ar gae arbennig ac sy'n dibynnu ar gyflymder a phasio cywrair, cryfder, dawn, gwrthdaro a thaclo, a chicio pêl er mwyn sgorio a threchu gwrthwynebwyr.'

Er bod tebygrwydd cyffredinol rhyngddynt, ceir gwahaniaethau niferus rhwng y ddwy gamp.

Ar adegau clywn bobl yn dweud rhywbeth tebyg i hyn: 'Dwi'm yn meddwl bod angen cred, nac athrawiaeth, na diffiniadau diwinyddol er mwyn bod yn Gristion heddiw. Caru'ch cyd-ddyn sy'n bwysig. Does dim gwahaniaeth go iawn rhwng cred a chred.'

Ond fe wyddom ym mên ein hesgyrn fod yna wahaniaeth rhwng camp a champ, rhwng pêl-droed a rygbi, rhwng proffes ffydd ddilys a'r hyn sy'n gau.

### Darlleniad 1 Ioan 4:7-21

#### Myfyrdod

Gwelsom fod Ioan am gynorthwyo'r Cristnogion cyntaf un i adnabod hanfodion cred a bywyd ymarferol proffeswyr ffydd. Mae'n nodi bod tair elfen i'w canfod **gyda'i gilydd** ym mhrofiad y credinwyr: rydym yn caru Iesu Grist, yn caru sancteiddrwydd, ac yn caru ein cyd-aelodau yn yr eglwys. Yn ein hadnodau heddiw dangosir i ni'r cydblethiad hanfodol sydd rhwng dwy elfen o raff deircainc ein ffydd: carwn Dduw a charwn ein cyd-aelodau. Dyma wreiddyn a ffrwyth ein proffes.

Gwreiddyn y cyfan yw ein hargyhoeddiad am natur a chymeriad Duw. Mae Ioan yn sôn am 'Dduw' (adn 7, 8) ac am 'ei unig Fab'. 'Iesu yw Mab Duw' sy'n cael ei adnabod gennym (adn 15).

Yn ychwanegol at hynny, gwyddom ein bod, trwy ffydd, 'yn aros ynddo Ef, ac

ef ynom ninnau: am iddo ef roi inni o'i Ysbryd' (adn 13). Mae profiad y Cristion o Dduw yn drwyadl Drindodaidd.

Nid profiad i arbenigwyr ysbrydol yn unig mo hyn. Cyfeiria Ioan atom 'ni' (adn 7), at 'bob un' (adn 7), ac mai 'ynom ni' y caiff cariad Duw ei berffeithio (adn 12). Yn wir, perthyn yr adnabyddiaeth hon i 'bwy bynnag sy'n cyffesu' (adn 15).

Sail y profiad Cristnogol yw hyn: 'Dangoswyd cariad Duw tuag atom' yn Iesu Grist (adn 9), ac ar sail 'tystiolaeth' y rhai sydd 'wedi gweld' (adn 14) y daethom ninnau i 'gyffesu' ffydd yn Iesu Grist (adn 14). Am i ni gredu a phrofi rhywbeth penodol am weithgarwch Duw a'i gariad tuag atom, ac am ein bod wedi ein hargyhoeddi drwy'r Ysbryd Glân fod Duw wedi anfon ei unig Fab i'r byd er mwyn i ni fyw drwyddo (adn 9), down ninnau i garu ei bobl ef, yr eglwys, hefyd.

Ond beth yw'r cariad hwn y sonia Ioan amdano?

**1 Cariad yw Duw – yn ei natur** (adn 7, 8b, 16b) Nid teimlad cynnes, annelwig mo'r 'cariad' hwn. Mae Ioan eisoes wedi dweud wrthym mai 'goleuni yw Duw' (1 Ioan 1:5). Hanfod Duw yw cariad disglair a phur, heb na chwmmwl na chysgod i amharu arno. Oherwydd hynny, nid yw cyfiawnder Duw byth mewn gwrthdrawiad â'i gariad. Golyga hefyd fod holl weithredoedd allanol Duw yn gyfiawn ac yn gariadus yr un pryd, am ei fod Ef ei hun yn ei natur yn berffaith gyfiawn ac yn gariad perffaith yr un pryd. Felly, caiff cariad cyfiawn a chyfiawnder cariadus eu mynegi yn ei holl weithredoedd.

**2 Cariad yw Duw yn ei weithredoedd** Amlygir ac amlygwyd cariad Duw yn ei weithredoedd am fod ei weithredoedd yn fynegiant o bwy ydyw: 'Dyma sut yr ydym yn gwybod ...' (adn 13). Yn wir, dywed Ioan wrthym mai dim ond yn ei weithredoedd y canfyddwn gymeriad Duw: 'Yn hyn y dangoswyd ei gariad' (adn 9). Caiff ei fynegi mewn gweithred gwbl hunanaberthol (adn 10). Yn nyfodiad ei Fab y gwelsom natur y cariad hwnnw (adn 14) ac yn ei 'aberth cymod dros ein pechodau' (adn 11) gwelsom ddyfnder ei ymrwymiad cariadlawn tuag atom.

Drwy'r Ysbryd Glân, daethom i adnabod (adn 16) y cariad hwnnw a'i gredu. Cariad ydyw sy'n ein denu ato (adn 10), a hynny am ei fod yn gariad sy'n cymryd y cam cyntaf tuag at ein hadferiad (adn 19). Cariad ydyw sy'n ein denu ato er gwaethaf ein hymwybyddiaeth o'n condemniad (adn 17), a 'chariad perffaith' ydyw sy'n 'bwrw allan ofn' (adn 19).

Felly yr adnabyddir yn Iesu Grist nid yn unig natur Duw a hanfod ei gymeriad ond hefyd beth yw hanfod cariad.

**3 Cariad sy'n trawsffurfio bywydau ydyw** Nid byd athroniaeth, syniadaeth ac athrawiaeth yw hwn yn unig. Mae Ioan am i ni wybod bod proffesu bod mewn perthynas â'r cariad hwn mewn rhyw fodd dirgel yn gweddnewid ein hanian, ein natur a gwrthrych ein cariad. Cawn ein hannog i garu (adn 7), a'n rhybuddio rhag peidio â charu (adn 8)!

Yn wir, mae Ioan yn mynd ymhellach na byd damcaniaeth ac athrawiaeth.

'Os' ydym yn proffesu bod mewn perthynas gariadlawn â Duw, mae yna ganlyniadau ymarferol i'w gweld ynom (adn 11). Cawn ein galw i ddaearu ein proffes a datguddio'i fywyd Ef yn ein gweithredoedd (adn 12). Cawn ninnau'r gallu i garu pobl, oherwydd gwrthrychau annheilwng i'w gariad ydym ni (adn 19-20). Ac y mae caru'n orchymyn yn ogystal â bod yn batrwm ar ein cyfer (adn 21).

Dywedwyd am Gristnogion yr Eglwys Fore eu bod yn sefyll allan yn y byd oherwydd eu gofalu o'i gilydd, eu haelioni, eu cariad tuag at ei gilydd, a'r modd yr oeddynt yn gofalu am eraill. Tybed ai dyna a wêl y byd wrth edrych ar fywyd ein capeli heddiw?

#### Gweddi

Arglwydd, agor ein calonnau i adnabod dy waith yn y byd heddiw, dy waith ynom ni, a'th waith yn ein plith. Dysg ni i garu'r Iesu, i garu sancteiddrwydd, i garu ein cyd-aelodau ac i garu ein gilydd er mwyn i'r byd adnabod dy drugaredd di ar waith ynom. Arglwydd, crea ynom hiraeth am bethau nad adnabu'r byd. Amen.

### Emyn 686 : 'O Iesu mawr'

RWJ

Cyhoeddir *Cenn@d* ar y cyd gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru. Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr *Cenn@d* yn cynrychioli barn swyddogol Eglwys Bresbyteraidd Cymru nac Undeb Bedyddwyr Cymru. Gallwch anfon eich cyfraniadau / gohebiaethau / ymholiadau at:

[watcyn@cennad.cymru](mailto:watcyn@cennad.cymru) | [huw@cennad.cymru](mailto:huw@cennad.cymru) | [aled@ysgolsul.com](mailto:aled@ysgolsul.com)

[www.cennad.cymru](http://www.cennad.cymru) | [f CennadCymru](https://www.facebook.com/CennadCymru) | [@CennadCymru](https://www.instagram.com/CennadCymru)